Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives



# Brechiad meningococol B i atal gonoroea

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Sganiwch fi i gael mwy o wybodaeth am gonorea

# Ffeithiau allweddol

**Mae gonoroea yn haint a all ledaenu yn ystod gweithgarwch rhywiol heb gondom.**

Mae brechlyn ar gael i helpu i amddiffyn rhag gonoroea. Yng Nghymru, mae'r GIG yn cynnig y brechlyn fesul achos i ddynion hoyw, deurywiol a dynion eraill sy'n cael rhyw gyda dynion (GBMSM).

Efallai y bydd pobl eraill hefyd yn gymwys i gael y brechlyn, yn seiliedig ar gyngor gan weithiwr proffesiynol iechyd rhywiol.

**Byddwch yn cael cynnig y brechlyn os ydych:**

- edi cael haint bacteriol o ganlyniad i ryw, fel clamydia neu gonoroea, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, neu
- wedi cael pump neu fwy o bartneriaid rhywiol yn ystod y tri mis diwethaf.

Gall y brechlyn helpu i leihau eich siawns o gael gonoroea ond ni fydd yn dileu'r risg yn llwyr. Mae hefyd yn helpu i amddiffyn rhag heintiau difrifol eraill, fel llid yr ymennydd a septisemia.

## Gweithredu: Os ydych yn meddwl eich bod mewn perygl, siaradwch â'ch gwasanaeth iechyd rhywiol.

Gallwch ddod o hyd i restr o wasanaethau iechyd rhywiol yng Nghymru yn:
**111.wales.nhs.uk/localservices** (safle allanol)
Cliciwch ar y tab 'Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu' i weld manylion y gwasanaethau.

# Beth yw gonoroea?

Haint a drosglwyddir yn rhywiol (STI) yw gonoroea sy'n lledaenu pan fydd pobl yn cael rhyw drwy'r wain, rhyw drwy'r geg, rhyw yr anws neu ryw heb gondom. Gall hefyd ledaenu wrth rannu dyfeisiau sy'n dirgrynu neu deganau rhyw eraill nad ydynt wedi cael eu golchi na'u gorchuddio â chondom newydd bob tro y cânt eu defnyddio.

Mae gonoroea yn un o'r heintiau bacteriol mwyaf cyffredin a drosglwyddir yn rhywiol yn y DU. Yn anffodus, mae'n mynd yn fwy anodd ei drin. Mewn rhai achosion, nid yw gwrthfiotigau a ddefnyddir yn gyffredin yn gweithio mwyach.

**Ffaith!** **Bod dros 5,000 o bobl yng Nghymru wedi cael diagnosis o gonoroea yn 2023.**

Mae gonoroea yn cael ei ddiagnosio amlaf ymysg pobl rhwng 15 a 24 oed ac mewn GBMSM. Fodd bynnag, gall unrhyw un sy'n cael rhyw heb ddiogelwch gyda phartner heintiedig gael yr haint. Gall gonoroea hefyd ledaenu drwy gysylltiad â rhedlif heintiedig o'r pidyn neu'r wain.

# Sut fyddaf yn gwybod bod gen i gonoroea?

Gall gonoroea achosi symptomau yn yr organau cenhedlu, yr anws, y gwddf neu'r llygaid. Efallai y byddwch chi'n cael poen neu redlif anarferol yn yr ardaloedd hyn. Gall symptomau amrywio yn dibynnu ar ba ran o'r corff yr effeithir arni.

Mae symptomau cyffredin sy'n effeithio ar yr organau cenhedlu yn cynnwys:

- poen neu losgi wrth wneud dŵr, a
- hylif neu redlif gwyrdd neu felyn trwchus o'r pidyn neu'r wain.

Fel arfer, bydd symptomau gonoroea yn ymddangos ymhen pythefnos o gael yr haint, ond weithiau ni fyddant yn ymddangos tan fisoedd lawer yn ddiweddarach.

Ffaith!

**Y gallwch gael gonoroea heb fod â symptomau a dal i'w drosglwyddo i'ch partneriaid rhywiol.**

Os na chaiff ei ddiagnosio a'i drin, gall gonoroea achosi problemau iechyd difrifol, fel heintiau poenus yn y ceilliau ymysg dynion ac anffrwythlondeb ymysg dynion a menywod. Gall hefyd gynyddu eich risg o gael heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol, gan gynnwys HIV.

Am ragor o wybodaeth am arwyddion a symptomau gonoroea, ewch i **www.ircymru.online/am-gonorea.html** (safle allanol).

Os ydych yn meddwl bod gennych gonoroea, ewch i **NHS 111 Wales** (safle allanol) neu cysylltwch â'ch gwasanaeth iechyd rhywiol lleol neu bractis meddyg teulu i wneud apwyntiad.

## Sut ydw i'n amddiffyn fy hun ac eraill rhag gonoroea?

Un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn eich hun a'ch partner rhag gonoroea a heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol, gan gynnwys HIV, yw ymarfer rhyw diogel. Mae hyn yn cynnwys defnyddio condom ar gyfer rhyw drwy'r wain, rhyw yr anws neu ryw drwy'r geg. Mae hefyd yn bwysig cadw teganau rhyw yn lân a rhoi condom newydd arnynt bob tro y byddant yn cael eu defnyddio.

Ffaith!

**Y gallwch gael condomau am ddim o wefan Iechyd Rhywiol Cymru. Ewch i www.ircymru.online (safle allanol) a dewiswch 'Condomau' o'r opsiynau ar frig y dudalen.**

Os ydych chi'n gymwys, gallwch chi hefyd gael y brechlyn i helpu i amddiffyn eich hun rhag gonoroea.

Os oes gennych nifer o bartneriaid rhywiol, dylech gael eich profi'n rheolaidd am gonoroea. Os byddwch yn cael diagnosis o gonoroea, gwnewch yn siŵr eich bod yn gorffen eich cwrs llawn o driniaeth, yn unol â chyngor eich meddyg neu nyrs.

Os ydych yn poeni am eich risg o gael gonoroea neu os ydych am gael rhagor o wybodaeth, siaradwch â'ch clinig iechyd rhywiol lleol.

Gallwch ddod o hyd i'ch clinig iechyd rhywiol agosaf yma: **111.wales.nhs.uk/localservices** (safle allanol) Cliciwch ar y tab 'Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu' i weld manylion y gwasanaethau.

## Pa frechlyn fydd yn cael ei gynnig i mi?

Byddwch yn cael cynnig y brechlyn 4CMenB. Cyflwynwyd y brechlyn hwn gyntaf i helpu i amddiffyn rhag llid yr ymennydd (haint yn yr ymennydd a llinyn asgwrn y cefn) a septisemia (gwenwyn y gwaed).

Mae'r bacteria sy'n achosi rhai mathau o lid yr ymennydd yn debyg i'r bacteria sy'n achosi gonoroea. Mae ymchwil yn dangos y gall y brechlyn 4CMenB hefyd helpu i amddiffyn rhag gonoroea. Dyna pam rydych chi'n cael cynnig y brechlyn hwn – i leihau eich siawns o gael gonoroea.

## Pwy all gael y brechlyn?

Mae gonoroea yn cael ei ddiagnosio'n fwy cyffredin ymysg GBMSM. Nod y rhaglen frechu hon yw lleihau nifer yr achosion o gonoroea a lleihau eich risg o gael yr haint.

**Efallai y byddwch yn gymwys i gael y brechlyn os ydych chi'n GBMSM ac:**

- wedi cael haint bacteriol o ganlyniad i ryw, fel clamydia neu gonoroea, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, neu
- wedi cael pump neu fwy o bartneriaid rhywiol yn ystod y tri mis diwethaf.



Gall pobl eraill fod yn gymwys hefyd yn seiliedig ar asesiad gan weithiwr proffesiynol iechyd rhywiol.

Ni fyddwch yn cael gwahoddiad i gael y brechlyn, ond os byddwch yn cysylltu â chlinig iechyd rhywiol neu'n ymweld ag un, ac yn bodloni'r meini prawf a restrir uchod, dylech gael cynnig y brechlyn.

## Ydy'r brechlyn yn ddiogel?

Ydy, mae'r brechlyn 4CMenB yn ddiogel. Mae'n bodloni'r holl safonau diogelwch. Unwaith y bydd brechlyn yn cael ei ddefnyddio, mae ei ddiogelwch yn parhau i gael ei fonitro.

## Faint o ddosau sydd eu hangen?

Bydd angen dau ddos arnoch. Rhaid rhoi'r ail ddos o leiaf 4 wythnos ar ôl y dos cyntaf a gellir ei roi pan fyddwch chi'n mynd i'r clinig nesaf, a allai fod ymhen 3 mis, 6 mis neu'n ddiweddarach.

## Sut mae'r brechlyn 4CMenB yn cael ei roi?

Rhoddir y brechlyn fel pigiad, fel arfer yn rhan uchaf eich braich.

## Beth os oes ofn nodwyddau arna i?

Os oes ofn nodwyddau arnoch chi, rhowch wybod i'r sawl sy'n rhoi'r brechlyn i chi. Bydd yn eich cefnogi chi.

# Ydy'r brechlyn yn gweithio?

Gall y brechlyn 4CMenB leihau eich risg o gael gonoroea, ond nid yw'n gwarantu na fyddwch chi'n ei gael. Hyd yn oed ar ôl dau ddos, dylech barhau i fod yn ymwybodol o risgiau a symptomau gonoroea gan nad yw'r un brechlyn yn 100% effeithiol.

Mae astudiaethau diweddar yn dangos y gall y brechlyn 4CMenB ddarparu amddiffyniad o 30% i 40% rhag gonoroea ymysg pobl sydd mewn perygl uchel o gael eu heintio.

Prif fantais y brechlyn yw y gall helpu i leihau'r nifer o heintiau gonoroea. Er efallai na fydd yn atal pob achos, mae'n dal yn ddefnyddiol, gan nad yw cael gonoroea unwaith yn eich amddiffyn rhag ei gael eto. Gallwch hefyd leihau eich risg drwy ddefnyddio condomau ar gyfer pob gweithgarwch rhywiol a chael profion rheolaidd am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

**Nid yw'r brechlyn 4CMenB yn achosi gonoroea nac yn ei ledaenu.**

# A ddylwn i gael y brechlyn os ydw i wedi cael gonoroea o'r blaen?

Dylech. Gallwch gael eich brechu o hyd os ydych wedi cael gonoroea o'r blaen ac wedi gwella ohono. Gallwch hefyd gael eich brechu os oes gennych gonoroea ar hyn o bryd.



**Ffaith!**

**Y gallwch gael gonoroea eto hyd yn oed os ydych wedi ei gael o'r blaen.**

# Oes unrhyw un na ddylai gael y brechlyn 4CMenB?

Ni ellir rhoi'r brechlyn 4CMenB i nifer fach iawn o bobl. Ni ddylech gael y brechlyn os ydych wedi cael adwaith difrifol (sy'n peryglu bywyd) i'r canlynol:

- dos blaenorol o'r brechlyn, neu
- gynhwysyn yn y brechlyn.

Siaradwch â'r sawl sy'n rhoi'r brechlyn i chi os ydych wedi cael adwaith alergaidd difrifol i'r brechlyn neu ei gynhwysion yn y gorffennol.

Os oes gennych anhwylder gwaedu, neu system imiwnedd wan, siaradwch â'ch meddyg neu nyrs clinig cyn i chi gael y brechlyn.



# Os ydw i'n sâl, a ddylwn i gael y brechlyn?

Os ydych yn sâl, mae'n well aros nes eich bod wedi gwella cyn cael brechlyn. Nid yw annwyd neu fân salwch arall yn rheswm dros ohirio eich brechlyn. Os oes gennych amheuon, trafodwch hyn gyda'r unigolyn sy'n rhoi eich brechiad i chi.

# Beth os ydw i eisoes wedi cael y brechlyn 4CMenB?

Os ydych yn byw gyda HIV, os nad oes gennych ddueg neu os oes gennych gyflwr prin o'r enw anhwylder ategol, efallai eich bod eisoes wedi cael dau ddos o'r brechlyn 4CMenB. Os felly, ni fydd angen dosau pellach arnoch. Os mai dim ond un dos o'r brechlyn 4CMenB rydych wedi'i gael, gallwch gael ail ddos o leiaf bedair wythnos ar ôl eich dos cyntaf.

Os oes gennych gyflwr meddygol neu os ydych yn cymryd meddyginiaeth sy'n gwanhau eich system imiwnedd, efallai na fydd y brechlyn yn eich amddiffyn cystal. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod yn cael y brechlyn o hyd os yw'n cael ei argymell. Rhowch wybod i'ch meddyg neu eich nyrs.

# Beth os ydw i'n cymryd meddyginiaethau eraill?

Dywedwch wrth eich meddyg neu nyrs am unrhyw feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd ar hyn o bryd neu wedi'u cymryd yn ddiweddar. Dylech hefyd ddweud wrthynt am unrhyw frechiadau eraill rydych wedi'u cael yn ddiweddar. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai fod yn iawn i chi gael y brechlyn.

**Mae'r brechlyn yn ddiogel i bobl sy'n byw gyda HIV a'r rhai sy'n cymryd PreP. Gallwch hefyd gael y brechlyn yr un pryd â brechlynnau pwysig eraill, gan gynnwys y rhai yn erbyn HPV, brech M, hepatitis A a hepatitis B.**

# Sut fyddaf yn cael fy mrechu?

Mae'r brechlyn 4CMenB ar gael am ddim gan wasanaethau iechyd rhywiol arbenigol i'r rhai sy'n gymwys. Gallwch ddod o hyd i'ch clinig iechyd rhywiol agosaf yma: **111.wales.nhs.uk/localservices** (safle allanol)
Cliciwch ar y tab 'Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu' i weld manylion y gwasanaethau.

Mae GIG Cymru yn argymell yn gryf eich bod yn cael y brechlyn 4CMenB cyn gynted ag y bydd yn cael ei gynnig i chi.

# Beth yw sgil-effeithiau'r brechlyn 4CMenB?

Fel pob meddyginiaeth, gall brechlynnau achosi sgil-effeithiau. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ysgafn ac yn rhai tymor byr, ac ni fydd pawb yn eu cael. Dim ond am ychydig ddyddiau y dylai sgil-effeithiau cyffredin o'r brechlyn bara.

Mae sgil-effeithiau cyffredin iawn ar ôl brechu yn cynnwys:

- poen, cochni neu chwydd lle rhoddir y pigiad i chi
- cyhyrau a chymalau dolurus
- teimlo'n sâl yn gyffredinol
- teimlo'n gyfoglyd, a
- chur pen/pen tost

Dylech aros am 15 munud cyn i chi yrru os byddwch yn teimlo'n wanllyd ar ôl cael y brechiad.

Os cewch un o'r sgil-effeithiau a restrir uchod, gallwch orffwys a chymryd y dos arferol o barasetamol (dilynwch y cyngor yn y pecyn) i'ch helpu i deimlo'n well. Peidiwch â gyrru na defnyddio peiriannau os ydych yn teimlo'n sâl.

Os bydd gennych gwestiynau am sgil-effeithiau, gallwch ofyn i'r unigolyn a fydd yn rhoi'r brechlyn i chi.

Gweler tudalen gefn y daflen hon i gael rhagor o fanylion am:

- eich brechlyn, gan gynnwys yr holl sgil-effeithiau posibl, ac
- adrodd am sgil-effeithiau a amheuir trwy gynllun y Cerdyn Melyn

Yn anaml, gall pobl gael adwaith difrifol yn fuan ar ôl cael eu brechu, sy'n achosi anawsterau anadlu a gall beri iddynt lewygu. Gelwir hyn yn adwaith anaffylactig. Gall ddigwydd hefyd gyda meddyginiaethau eraill a bwyd. Mae'r adweithiau hyn yn hynod o brin, ac yn effeithio ar lai nag un mewn miliwn o bobl. Mae staff sy'n rhoi brechiadau wedi'u hyfforddi i reoli'r adweithiau hyn.

Gall pobl sy'n cael adwaith anaffylactig gael eu trin yn llwyddiannus ac fel arfer maent yn gwella o fewn ychydig oriau.

## Oeddech chi'n gwybod?

Ei bod hi'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael y brechlynnau canlynol:

- Hepatitis A
- Hepatitis B
- HPV
- Brech M

Siaradwch â'ch gwasanaeth iechyd rhywiol i gael rhagor o wybodaeth.

**Defnyddiwch y tabl isod i gofnodi eich brechiadau 4CMenB**

| Brechlyn 4CMenB | Dyddiad a roddwyd |
|---|---|
| Dos 1 | |
| Dos 2 | |

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i **icc.gig.cymru/brechlynnau**

# Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych gwestiynau neu os ydych am gael rhagor o wybodaeth, gallwch ymweld â **111.wales.nhs.uk** (safle allanol), siarad â'ch meddyg neu nyrs, neu gysylltu â GIG 111 Cymru drwy ffonio **111**.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am frechlynnau a gynigir yng Nghymru o **icc.gig.cymru/brechlynnau**

I gael rhagor o wybodaeth am y brechlyn, ei gynnwys a'i sgil-effeithiau posibl, ewch i **medicines.org.uk/emc** (safle allanol, Saesneg yn unig). Bydd angen i chi nodi enw'r brechlyn yn y blwch chwilio. Gallwch hefyd weld y daflen i gleifion ar-lein.

Gallwch ddod o hyd i enw'r brechlyn yn **icc.gig.cymru/menb-ar-gyfer-gonoroea**

Dylech roi gwybod am sgil-effeithiau a amheuir ar-lein yn **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (safle allanol, Saesneg yn unig), drwy lawrlwytho ap y Cerdyn Melyn, neu drwy ffonio **0800 731 6789** (dydd Llun i ddydd Gwener, 9yb i 5yh).

Gallwch ddod o hyd i'ch clinig iechyd rhywiol agosaf yn **111.wales.nhs.uk/localservices** (safle allanol)
Cliciwch ar y tab 'Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu' i weld y gwasanaethau.

I gael gwybod sut mae'r GIG yn defnyddio'ch gwybodaeth, ewch i **111.wales.nhs.uk/amdanomni/eichgwybodaeth** (safle allanol).

**Sganiwch fi i fynd i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Fersiwn 1 | Gorffennaf 2025
© Ymddiriedolaeth y GIG Cyhoeddus Cymru (Gyda chydnabyddiaeth i Sefydliad Iechyd y Byd, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ac Iechyd Cyhoeddus yr Alban)
ISBN 978-1-83766-573-0

# Further information

If you have any questions or want more information, you can visit **111.wales.nhs.uk** (external site), talk to your doctor or nurse, or contact NHS 111 Wales by calling **111**.

You can find out more information on vaccines offered in Wales at: **phw.nhs.wales/vaccines**

To find out more about the vaccine, including its contents and possible side effects, go to **medicines.org.uk/emc** (external site). You will need to enter the name of the vaccine in the search box. You can also see the patient leaflet online.

You can find the name of the vaccine at **phw.nhs.wales/menb-for-gonorrhoea**

You should report suspected side effects online at **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (external site), by downloading the Yellow Card app, or by calling **0800 731 6789** (Monday to Friday, 9am to 5pm).

You can find your nearest sexual health clinic at: **111.wales.nhs.uk/localservices** (external site) Click on the 'Sexual & Reproductive Health' tab to view the services.

To find out how the NHS uses your information, visit: **111.wales.nhs.uk/AboutUs/Yourinformation** (external site)

**Scan me to go to the Immunisation and Vaccines homepage**

Crystal Mark 24390 Clarity approved by Plain English Campaign

Version 1 | July 2025
© Public Health Wales NHS Trust (with acknowledgement to the World Health Organization, UK Health Security Agency and Public Health Scotland)
ISBN 978-1-83766-573-0

Rarely, people can have a severe reaction soon after vaccination, which causes breathing difficulties and may cause them to collapse. This is called an anaphylactic reaction, and it can also happen with other medicines and food. These reactions are extremely rare, affecting less than one in a million people. Staff who give vaccinations are trained to manage these reactions.

People who have an anaphylactic reaction can be successfully treated and usually recover within a few hours.

## Did you know?

You may also be eligible for the following vaccines.

- Hepatitis A
- Hepatitis B
- HPV
- Mpox

For more information, talk to your sexual health service.

**Use the table below to record your 4CMenB vaccinations**

| 4CMenB vaccine | Date given |
|---|---|
| Dose 1 | |
| Dose 2 | |

The information in this leaflet is correct at the time of publication. For the most up-to-date information, please visit **phw.nhs.wales/vaccines**

# What are the side effects of the 4CMenB vaccine?

Like all medicines, vaccines can cause side effects. Most of these are mild and short term, and not everyone gets them. Common side effects from the vaccine should only last a few days.

Very common side effects after vaccination include:

- pain, redness or swelling where you had the injection
- sore muscles and joints
- feeling generally unwell
- feeling sick, and
- a headache.

If you feel faint after the vaccination, you should wait for 15 minutes before you drive.

If you get any of the side effects listed above, you can rest and take the normal dose of paracetamol (follow the advice in the packaging) to help you feel better. Do not drive or use machines if you are feeling unwell.

If you have any questions about side effects, you can ask the person giving you the vaccine.

See the back page of this leaflet for more details on:

- your vaccine, including all possible side effects, and
- reporting suspected side effects through the Yellow Card scheme.

## What if I have already had the 4CMenB vaccine?

If you are living with HIV, don't have a spleen or have a rare condition called complement deficiency, you may have already had two doses of the 4CMenB vaccine. If so, you won't need any more doses. If you have only had one dose of the 4CMenB vaccine, you can have a second dose at least four weeks after your first dose.

If you have a condition or take medicine that weakens your immune system, the vaccine may not protect you as well. However, it is still important to have the vaccine if it is recommended. Let your doctor or nurse know.

## What if I am taking other medicines?

Tell your doctor or nurse about any medications you are currently taking or have recently taken. You should also tell them about any other vaccines you have recently had. In most cases, you should be fine to have the vaccine.

**The vaccine is safe for people living with HIV and those taking PreP. You can also have the vaccine at the same time as other important vaccines, including those against HPV, mpox, hepatitis A and hepatitis B.**

## How will I get my vaccinations?

The 4CMenB vaccine is available free from specialist sexual health services for those who are eligible. You can find your nearest sexual health clinic here: **111.wales.nhs.uk/localservices** (external site) Click on the 'Sexual & Reproductive Health' tab to view the services.

NHS Wales strongly recommends you get the 4CMenB vaccine as soon as it is offered to you.

# Is there anyone who should not have the 4CMenB vaccine?

Very few people cannot have the 4CMenB vaccine. You should not have the vaccine if you have had a serious (life-threatening) reaction to:

- a previous dose of the vaccine, or
- any ingredient in the vaccine.

Speak to the person giving you the vaccine if you have had a serious allergic reaction to the vaccine or its ingredients in the past.

If you have a bleeding disorder, or a weakened immune system, speak to your doctor or clinic nurse before you have the vaccine.



# If I am unwell, should I have the vaccine?

If you are unwell, it is better to wait until you have recovered to have a vaccine. A cold or other minor illness is not a reason to delay your vaccine. If in doubt, discuss this with the person giving you your vaccination.

# Does the vaccine work?

The 4CMenB vaccine can reduce your risk of getting gonorrhoea, but it does not guarantee you will not get it. Even after two doses, you should continue to be aware of the risks and symptoms of gonorrhoea as no vaccine is 100% effective.

Recent studies show that the 4CMenB vaccine may provide 30 to 40% protection against gonorrhoea in people at high risk of infection.

The main benefit of the vaccine is that it can help reduce the number of gonorrhoea infections. While it may not prevent every case, it is still helpful, as having gonorrhoea once does not protect you from getting it again. You can also lower your risk by using condoms for all sexual activity and getting tested for STIs regularly.

**The 4CMenB vaccine does not cause or spread gonorrhoea.**

# Should I have the vaccine if I have had gonorrhoea before?

Yes. You can still be vaccinated if you have previously had and recovered from gonorrhoea. You can also be vaccinated if you currently have gonorrhoea.



Fact!

**Even if you've had gonorrhoea before, you can get it again.**



Other people may be also eligible based on an assessment by a sexual health professional.

You won't get an invitation for the vaccine, but if you contact or visit a sexual health clinic and meet the criteria listed above, you should be offered the vaccine.

## Is the vaccine safe?

Yes, the 4CMenB vaccine is safe. It meets all safety standards. Once a vaccine is in use, its safety continues to be monitored.

## How many doses are needed?

You will need two doses. You must have the second dose at least four weeks after the first dose and you can have it when you next attend the clinic (this could be three or six months after the first dose or even later).

## How is the 4CMenB vaccine given?

The vaccine is given as an injection, usually in your upper arm.

## What if I have a fear of needles?

If you have a fear of needles, let the person giving you the vaccine know. They will support you.

If you have multiple sexual partners you should get tested regularly for gonorrhoea. If you are diagnosed with gonorrhoea, make sure you finish your full course of treatment, as advised by your doctor or nurse.

If you are concerned about your risk of gonorrhoea or want more information, speak to your local sexual health clinic.

You can find your nearest sexual health clinic here: **111.wales.nhs.uk/localservices** (external site) Click on the 'Sexual & Reproductive Health' tab to view the services.

## Which vaccine will I be offered?

You will be offered the 4CMenB vaccine. This vaccine was first introduced to help protect against meningitis (an infection in the brain and spinal cord) and septicaemia (blood poisoning).

The bacteria that cause some types of meningitis are similar to the bacteria that cause gonorrhoea. Research shows that the 4CMenB vaccine can also help protect against gonorrhoea. That is why you are being offered this vaccine – to reduce your chance of getting gonorrhoea.

## Who can have the vaccine?

Gonorrhoea is more commonly diagnosed in GBMSM. This vaccination programme aims to lower the number of gonorrhoea cases and reduce your risk of getting the infection.

**You may be eligible for the vaccine if you are GBMSM and have had:**

- a bacterial infection from sex, such as chlamydia or gonorrhoea, in the last year, or
- five or more sexual partners in the last three months.

**Fact!** **You can have gonorrhoea without any symptoms and still pass it to your sexual partners.**

If undiagnosed and untreated, gonorrhoea can cause serious health problems, such as painful testicle infections in men and infertility in both men and women. It can also increase your risk of getting other STIs, including HIV.

For more information about the signs and symptoms of gonorrhoea, visit **www.shwales.online/about-gonorrhoea.html** (external site).

If you think you might have gonorrhoea, visit **NHS 111 Wales** (external site) or contact your local sexual health service or GP surgery for an appointment.

## How do I protect myself and others from gonorrhoea?

One of the best ways to protect yourself and your partner from gonorrhoea and other STIs, including HIV, is to practise safe sex. This includes using a condom for vaginal, anal or oral sex. It is also important to keep sex toys clean and cover them with a new condom each time they are used.

**Fact!** **You can get free condoms from the Sexual Health Wales website. Visit www.shwales.online/index.html (external site) and select 'Condoms' from the options at the top of the page.**

If you are eligible, you can also get the vaccine to help protect yourself against gonorrhoea.

# What is gonorrhoea?

Gonorrhoea is a sexually transmitted infection (STI) that spreads when people have vaginal, oral or anal sex without a condom. It can also spread when sharing vibrators or other sex toys that have not been washed or covered with a new condom each time they are used.

Gonorrhoea is one of the most common bacterial STIs in the UK. Unfortunately, it is getting harder to treat. In some cases, commonly used antibiotics no longer work.

**Fact!** **In 2023, over 5,000 people in Wales were diagnosed with gonorrhoea.**

Gonorrhoea is most commonly diagnosed in people aged 15 to 24 and in GBMSM. However, anyone who has unprotected sex with an infected partner can get the infection. Gonorrhoea can also spread through contact with infected discharge from the penis or vagina.

# How do I know if I've got gonorrhoea?

Gonorrhoea can cause symptoms in the genitals, anus, throat or eyes. You may get pain or unusual discharge in these areas. Symptoms can vary depending on which part of the body is affected.

Common symptoms that affect the genitals include:

- pain or burning when you pee, and
- a thick green or yellow fluid or discharge from the penis or vagina.

Symptoms of gonorrhoea usually appear within two weeks of being infected, but sometimes they don't appear until many months later.

# Key facts

**Gonorrhoea is an infection that can spread during sexual activity without a condom.**

A vaccine is available to help protect against gonorrhoea. In Wales, the NHS offers the vaccine on a case-by-case basis to gay, bisexual and other men who have sex with men (GBMSM).

Other people may also be eligible for the vaccine, based on advice from a sexual health professional.

**You will be offered the vaccine if you have had:**

- a bacterial infection from sex, such as chlamydia or gonorrhoea, in the last year, or
- five or more sexual partners in the last three months.

The vaccine can help lower your chance of getting gonorrhoea but will not remove the risk completely. It also helps to protect against other serious infections, such as meningitis and septicaemia.

## Take action: If you think you're at risk, talk to your sexual health service.

You can find a list of sexual health services in Wales at: **111.wales.nhs.uk/localservices** (external site)
Click on the 'Sexual & Reproductive Health' tab to view the services.

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives



# Meningococcal B vaccination to prevent gonorrhoea

Mae'r gwybodaeth hon ar gael yn Gymraeg.
This information is available in Welsh.

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Scan me for more information on gonorrhoea